Welsh Office
Y Swyddfa Gymreig
DETR
ENVIRONMENT
TRANSPORT
REGIONS
Keep your home free from
damp & mould

Is your home damp? Damp can cause mould on walls and furniture and make timber window frames rot. Damp housing encourages the growth of mould and mites, and can increase the risk of respiratory illness.

Some damp is caused by condensation. This leaflet explains how condensation forms and how you can keep it to a minimum, so reducing the risk of dampness and mould growth.

damp & mould

What is CONDENSATION ?

There is always some moisture in the air, even if you cannot see it. If the air gets colder, it cannot hold all the moisture and tiny drops of water appear. This is condensation. You notice it when you see your breath on a cold day, or when the mirror mists over when you have a bath.

Condensation occurs mainly during cold weather, whether it is raining or dry, it does not leave a 'tidemark'. It appears on cold surfaces and in places where there is little movement of air. Look for it in corners, on or near windows, in or behind wardrobes and cupboards. It often forms on north-facing walls.

Is it CONDENSATION ?

Condensation is not the only cause of damp. It can also come from:

- Leaking pipes, wastes or overflows
- Rain seeping through the roof where a tile or slate is missing, spilling from a blocked gutter, penetrating around window frames, or leaking through a cracked pipe
- Rising damp due to a defective damp-course or because there is no damp-course

These causes of damp often leave a 'tidemark'.

If your home is newly built it may be damp because the water used during its construction (for example, in plaster) is still drying out.

If your home is damp for any of these reasons it may take weeks of heating and ventilation to dry out. Hiring a dehumidifier will help.

If you do not think the damp comes from any of these causes, then it is probably condensation.

How to avoid CONDENSATION

These three steps will help you reduce the condensation in your home.

1 Produce less moisture

Some ordinary daily activities produce a lot of moisture very quickly.

- Cover pans and do not leave kettles boiling.
- Avoid using paraffin and portable flueless bottled gas heaters as these heaters put a lot of moisture into the air.

- Dry washing outdoors on a line, or put it in the bathroom with the door closed and the window open or fan on.
- Vent any tumble dryer on the outside, unless it is the self-condensing type. DIY kits are available for this.

2 Ventilate to remove moisture

You can ventilate your home without making draughts.

- Keep a small window ajar or a trickle ventilator open when someone is in the room.
- Ventilate kitchens and bathrooms when in use by opening the windows wider. Or better still, use a humidistat-controlled electric fan. These come on automatically when the air becomes humid, and are cheap to run.

- Close the kitchen and bathroom doors when these rooms are in use, even if your kitchen or bathroom has an extractor fan. A door closer is advisable, as this will help prevent moisture reaching other rooms, especially bedrooms, which are often colder and more likely to get condensation.

- Ventilate cupboards and wardrobes. Avoid putting too many things in them as this stops the air circulating. Cut a ventilation slot in the back of each shelf or use slatted shelves. Cut 'breather' holes in doors and in the back of wardrobes and leave space between the back of the wardrobe and the wall. Where possible, position wardrobes and furniture against internal walls.

- If you replace your window units at any time, make sure that the new frames incorporate trickle ventilators.

3 Insulate, draughtproof and heat your home

Insulation and draughtproofing will help keep your home warm and will also cut fuel bills. When the whole home is warmer, condensation is less likely.

- Insulate your loft. Remember to draughtproof the loft hatch but do not block the opening under the eaves.

- Consider cavity wall insulation. Before deciding though, you should talk to your local building inspector as building regulations approval is required.

- Consider secondary and double glazing of windows to reduce heat loss and draughts but you must ensure that there is some ventilation.

- In cold weather, keep low background heating on all day, even when there is no one at home.

Some words of warning:

- Do not block permanent ventilators
- Do not completely block chimneys. Instead, leave a hole about two bricks in size and fit a louvered grille over it
- Do not draughtproof rooms where there is condensation or mould
- Do not draughtproof a room where there is a cooker or a fuel burning heater, for example, a gas fire
- Do not draughtproof windows in the bathroom and kitchen

First steps against MOULD

- First treat any mould you may already have in your home. If you then deal with the basic problem of condensation, mould should not reappear.

- To kill and remove mould, wipe down walls and window frames with a fungicidal wash which carries a Health and Safety Executive 'approval number'. Follow the manufacturer's instructions precisely. Dry-clean mildewed clothes and shampoo carpets. Disturbing mould by brushing or vacuum cleaning can increase the risk of respiratory problems.

- After treatment, redecorate using a good quality fungicidal paint to help prevent mould recurring. Note that this paint is not effective if overlaid with ordinary paints or wallpaper.

The only lasting way of avoiding severe mould is to eliminate dampness.

damp & mould

USEFUL INFORMATION

- Useful information on effective ways to heat and insulate your home can be obtained from the Energy Savings Trust (Tel. 0345 277 200).

- If you are a householder who receives a qualifying income or disability related benefits, or are aged 60 or over, you may be eligible for a grant for the installation of a major insulation measure such as draughtproofing, loft insulation, or cavity wall insulation, under the Home Energy Efficiency Scheme.

- For information on grants under the Home Energy Efficiency Scheme, contact The Housing Department, Welsh Office, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ. Tel: 01222 826921.

- If you are an owner-occupier or private tenant, are aged 60 or over, are disabled or infirm, or if you receive benefits, you may be eligible for home repair assistance to help you carry out insulation, draughtproofing or heating works.

- If dampness has caused window frames in your home to rot, you can treat the wood with preservatives. A leaflet entitled, 'Wood Preservatives in your Home', gives valuable advice on the use of these chemicals. The leaflet is available from the Department of the Environment, Transport and the Regions, PO Box 236, Wetherby, West Yorkshire, L23 7NB (Tel. 0870 1226 236, Fax 0870 1226 237). It is important to remember, however, that the only lasting remedy for wood rot is to cure the damp which caused it in the first place.

- A helpful video, produced by the Building Research Establishment (BRE) and called 'Condensation in the Home', is available at your local council office.

damp & mould

- 'Tackling Condensation', a more comprehensive guide to the causes, diagnosis and remedies of condensation, is available for purchase from BRE, Garston, Watford WD2 7JR. Telephone numbers for specific interests and enquiries are as follows:
  BRE Bookshop (BRE publications) - 01923 664444
  General and technical advice - 01923 664664

- Information on home repair assistance and application forms are available from your local housing authority.

- If you are a local authority tenant and wish to receive financial help with any remedial work, you should approach your local council direct.

- If you are elderly, disabled or on a low income, you may be able to get independent advice and practical help in carrying out the work from a home improvement agency if there is one operating in your area. Further information about home improvement agencies can be obtained from Care Repair England Ltd. (Tel. 0115 979 9091).

are you doing your bit?

For a FREE information pack on how to 'do your bit' for the environment call our hotline **0345 868686**
or send your name and address on a postcard to:
Are You Doing Your Bit?
P.O.Box 200
Stratford-on-Avon
CV37 9BR

Crown Copyright 1998

Reprinted in the UK, October 1998 on paper comprising 75% post consumer waste and 25% ECF pulp. Product code 94EP155.

Welsh Office
Y Swyddfa Gymreig

DETR
Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau

Diogelwch eich cartref rhag

lleithder a llwydni

A yw eich tŷ yn llaith? Gall lleithder achosi llwydni ar waliau a dodrefn a pheri i fframiau ffenestri pren bydru. Y mae tai llaith yn hybu twf llwydni a gwiddon, a gallant ychwanegu at y risg o ddatblygu salwch anadlu.

Y mae peth lleithder yn cael ei achosi gan anwedd. Y mae'r daflen hon yn egluro sut y mae anwedd yn ffurfio, a sut y gallwch ei rwystro gymaint â phosibl ac felly leihau'r risg o leithder a thwf llwydni.

lleithder a llwydni

Beth yw ANWEDD ?

Y mae peth gwlybaniaeth yn yr aer drwy'r amser, hyd yn oed os na allwch ei weld. Os yw'r aer yn oeri, ni all ddal yr holl wlybaniaeth, a bydd diferion bach o ddŵr yn ymddangos. Dyma yw anwedd. Yr ydych yn sylwi arno pan welwch eich anadl ar ddiwrnod oer, neu pan fydd niwl ar ddrych wrth i chi gael bath.

Y mae anwedd yn ffurfio'n bennaf yn ystod tywydd oer, boed yn lawiog neu'n sych, ac nid yw'n gadael ôl. Y mae'n ymddangos ar arwynebau oer ac mewn lleoedd lle nad oes llawer o symudiad aer. Edrychwch amdano mewn cornelau, ar ffenestri a gerllaw iddynt, mewn wardrobau a chypyrddau neu y tu ôl iddynt. Yn aml bydd yn ffurfio ar waliau sy'n wynebu'r gogledd.

Ai ANWEDD ydyw ?

Nid anwedd yn unig sy'n achosi lleithder. Gall ddatblygu oherwydd:

- Pibellau dŵr, pibellau gwastraff neu bibellau gorlif sy'n gollwng
- Glaw yn diferu drwy'r to lle bo llechen neu deilsen ar goll, neu'n gollwng o landar neu gafn wedi'i dagu, neu'n treiddio drwy fframiau ffenestri, neu'n gollwng drwy bibell sydd wedi hollti
- Lleithder codi oherwydd cwrs lleithder diffygiol neu oherwydd nad oes cwrs lleithder

Y mae lleithder o ganlyniad i'r achosion hyn yn aml yn gadael ôl.

Os yw eich cartref wedi cael ei adeiladu'n ddiweddar, gallai ddioddef o leithder gan nad yw'r dŵr a ddefnyddiwyd yn ystod ei adeiladu (er enghraifft, mewn plastr) wedi sychu'n gyfan gwbl.

Os yw eich cartref yn llaith o ganlyniad i unrhyw un o'r achosion hyn, fe all gymryd wythnosau o wresogi ac awyru i'w sychu. Gall llogi dadleithydd fod o gymorth.

Os nad ydych yn credu bod y lleithder yn deillio o'r achosion hyn, yna mae'n debyg mai anwedd ydyw.

Sut i osgoi ANWEDD

Bydd y tri cham hyn yn eich helpu i leihau'r anwedd yn eich cartref.

1 Cynhyrchwch lai o wlybaniaeth

Y mae rhai gweithgareddau cyffredin beunyddiol yn cynhyrchu llawer o wlybaniaeth yn gyflym.

- Rhowch gaead ar sosbenni a pheidiwch â gadael eich tegell i ferwi'n hir.
- Ceisiwch osgoi defnyddio gwresogyddion paraffin a gwresogyddion nwy potel heb simnai gan eu bod yn creu llawer o wlybaniaeth yn yr aer.
- Sychwch eich dillad ar lein y tu allan, neu yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu'r ffan ymlaen
- Sicrhewch eich bod yn awyru eich sychdaflwr y tu allan, oni bai ei fod o'r math sy'n cyddwyso ei hun. Gellir prynu pecyn i chi wneud hyn eich hunan.

2 Awyrwch i gael gwared â gwlybaniaeth

Gallwch awyru eich cartref heb greu drafftiau.

- Gadewch ffenestr fechan yn gilagored, neu awyrydd diferu ar agor, pan fo rhywun yn yr ystafell
- Agorwch ffenestri yn lletach mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi pan fyddwch yn eu defnyddioer mwyn eu hawyru. Neu, yn well na hynny, defnyddiwch ffan drydan gyda rheolydd lleithder. Y mae'r rhain yn cychwyn yn awtomatig pan fo'r awyr yn llaith, ac maent yn rhad i'w defnyddio.

- Caewch ddrysau'r gegin a'r ystafell ymolchi pan fo'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio, hyd yn oed os oes ffan wagio yn yr ystafelloedd hyn. Byddai caewr drysau yn fuddiol, gan y byddai'n rhwystro gwlybaniaeth rhag cyrraedd ystafelloedd eraill, yn enwedig ystafelloedd gwely, sydd yn aml yn oerach ac yn fwy tebygol o ddioddef o anwedd.

- Awyrwch eich cypyrddau a'ch wardrobau. Dylech osgoi rhoi gormod ynddynt gan fod hyn yn rhwystro'r cylchrediad awyr. Torrwch slot awyru ar gefn pob silff neu defnyddiwch silffoedd delltog. Torrwch dyllau 'anadlu' mewn drysau ac ar gefn wardrobau, a gadewch fwlch rhwng cefn y wardrob a'r wal. Os yw'n bosibl, gosodwch wardrobau a dodrefn yn erbyn waliau mewnol.
- Os byddwch yn newid eich ffenestri ar unrhyw adeg, sicrhewch fod awyrydd diferu yn y fframiau newydd.

3 Inswleiddiwch a gwresogwch eich cartref, a'i ddiogelu rhag drafftiau

Bydd inswleiddio a diogelu rhag drafftiau yn helpu i gadw eich cartref yn gynnes, a bydd hefyd yn lleihau eich biliau tanwydd. Pan fo'r cartref cyfan yn gynhesach, y mae anwedd yn llai tebygol o ddatblygu.

- Inswleiddiwch eich atig. Cofiwch ddiogelu'r hatsh rhag drafftiau, ond peidiwch â chau'r agoriad o dan y bondo.

- Ystyriwch inswleiddio waliau dwbl. Ond, cyn penderfynu'n derfynol, dylech drafod gyda'ch arolygydd adeiladu lleol, gan y bydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu.
- Ystyriwch gael ffenestri gwydr dwbl neu eilaidd er mwyn lleihau'r gwres a gollir, a lleihau drafftiau, ond sicrhewch fod peth awyru.
- Mewn tywydd oer, gadewch wres isel cefndirol ymlaen drwy'r dydd, hyd yn oed os nad oes neb gartref.

Ambell rybudd:

- Peidiwch â chau awyryddion parhaol
- Peidiwch â chau simneiau yn gyfan gwbl. Yn hytrach, gadewch dwll o faint dwy fricsen a rhoi rhwyll lwfrog drosto
- Peidiwch â diogelu rhag drafftiau mewn ystafelloedd lle y mae anwedd neu lwydni
- Peidiwch â diogelu rhag drafftiau mewn ystafell lle y mae popty neu wresogydd sy'n llosgi tanwydd, er enghraifft, tân nwy
- Peidiwch â diogelu ffenestri yr ystafell ymolchi neu'r gegin rhag drafftiau

Y camau cyntaf yn erbyn **LLWYDNI**

- Yn gyntaf, ymdriniwch ag unrhyw lwydni sydd eisoes yn eich cartref. Yna, os ydych yn ymdrin â'r broblem sylfaenol o anwedd, ni ddylai'r llwydni ailymddangos.

- I ladd ac i gael gwared ar lwydni, sychwch y waliau a fframiau'r ffenestri â golchiad ffyngladdol sydd â 'rhif cymeradwyo' y Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn fanwl. Dylech sychlanhau dillad sydd â llwydni arnynt, a glanhau carpedi â siampŵ. Gall brwsio neu ddefnyddio sugnwr llwch darfu ar y llwydni ac ychwanegu at y risg o broblemau anadlu.

- Ar ôl y driniaeth, dylech ail-addurno gan ddefnyddio paent ffyngladdol o safon uchel i helpu atal y llwydni rhag dychwelyd. Sylwch na fydd y paent hwn yn effeithiol os rhoddir paent arferol neu bapur wal drosto.

Yr unig ffordd barhaol o osgoi llwydni difrifol yw cael gwared ar leithder yn gyfan gwbl.

Lleithder a llwydni

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

- Gallwch gael gwybodaeth ddefnyddiol ar ffyrdd effeithiol o wresogi ac inswleiddio eich cartref oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Ffôn 0345 277 200).
- Os ydych yn ddeiliad tŷ sy'n derbyn incwm cymwys neu fudd-dal yn ymwneud ag anabledd, neu'n 60 oed a throsodd, efallai y gallech fod yn gymwys i dderbyn grant ar gyfer gosod dull sylweddol o inswleiddio, megis diogelu rhag drafftiau, inswleiddio'r atig neu inswleiddio waliau dwbl, o dan y cynllun Ynni Cartref Effeithlon.
- Am wybodaeth ynglŷn â grantiau y Cynllun Ynni Cartref Effeithlon, cysylltwch â'r Adran Tai, Y Swyddfa Gymreig, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Ffôn 01222 826921
- Os ydych yn berchennog-ddeiliad neu'n denant preifat, yn 60 oed a throsodd, yn anabl neu'n fethedig, neu os ydych yn derbyn budd-daliadau, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer cymorth i atgyweirio'ch cartref i'ch helpu gyda gwaith inswleiddio, diogelu rhag drafftiau neu waith gwresogi.
- Os yw fframiau'r ffenestri yn eich cartref wedi pydru o ganlyniad i leithder, gallwch drin y pren â chadwolion. Y mae'r daflen 'Wood Preservatives in your Home' yn darparu cyngor defnyddiol ar y defnydd o'r cemegolion hyn. Gellir cael copïau o'r daflen oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, PO Box 236, Wetherby, West Yorkshire, L23 7NB (Ffôn 0870 1226 236, Ffacs 0870 1226 237). Fodd bynnag, y mae'n bwysig cofio mai'r unig ffordd barhaol o gael gwared ar bren sy'n pydru yw drwy gael gwared â'r lleithder a'i hachosodd yn wreiddiol.
- Y mae fideo defnyddiol, 'Condensation in the Home', a gynhyrchwyd gan Sefydliad Ymchwil Prydain (BRE) ar gael yn swyddfa eich cyngor lleol.

Lleithder a llwydni

- Y mae 'Tackling Condensation', sef arweiniad mwy cynhwysfawr i'r hyn sy'n achosi anwedd, a ffyrdd o'i adnabod a'i wella, ar gael i'w brynu gan BRE, Garston, Watford WD2 7JR.
  Y mae'r rhifau ffôn ar gyfer diddordebau ac ymholiadau penodol fel a ganlyn:
  Siop Lyfrau BRE (cyhoeddiadau BRE) – 01923 664444
  Cyngor cyffredinol a thechnegol – 01923 664664
- Gellir cael gwybodaeth am gymorth i atgyweirio'ch cartref, ynghyd â ffurflenni cais, o'ch awdurdod tai lleol.
- Os ydych yn denant awdurdod lleol ac yn dymuno derbyn cymorth ariannol gyda gwaith adfer, dylech gysylltu'n uniongyrchol â'ch awdurdod lleol.
- Os ydych yn oedrannus, yn anabl neu ar incwm isel, efallai y gallwch gael cyngor annibynnol a chymorth ymarferol i wneud y gwaith oddi wrth asiantaeth gwella'r cartref, os oes un yn gweithredu yn eich ardal. Gallwch gael mwy o wybodaeth am asiantaethau gwella'r cartref oddi wrth: Gofal a Thrwsio Cymru (Ffôn 01222 576286)

Ydych chi'n chwarae eich rhan?

Am becyn yn rhad ac am ddim ynglŷn â sut i chwarae eich rhan' i helpu'r amgylchedd, galwch ein llinell ffôn **0345 868686** neu gyrrwch gerdyn post gyda'ch enw a'ch cyfeiriad arno at:
Are You Doing Your Bit?
P.O.Box 200
Stratford-on-Avon
CV37 9BR

Hawlfraint y Goron 1998
Ailargraffwyd yn y DU, Rhagfyr (1998) ar bapur yn cynnwys 75% o wastraff ôl-ddefnydd a 25% mwydion ECF. Cod cynnyrch 94EP155.